# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **15 Rhagfyr 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.E.Freeguard** |
| **Cynghorwyr**: | N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds, R.L.Taylor a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, C.Furlow-Harris, S.Davies, P.Hinder, J.Woodman-Ralph a/ac C.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

1. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Llywodraethu'r Rhaglen Gyfalaf

Derbyniodd aelodau wybodaeth ynghylch cylch gorchwyl Grŵp Llywio'r Rhaglen Gyfalaf a Chymorthfeydd Aelodau, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Croesawodd yr aelodau'r protocol newydd ynghylch Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r Adolygiad Llywodraethu Annibynnol.

Cafwyd trafodaethau ynghylch dosbarthu arian yn deg. Nodwyd y byddai'r awdurdod yn cynnal arolygon cynhwysfawr o'r holl asedau o fewn y fwrdeistref sirol ar sail rhaglen dreigl. Yn dilyn yr arolygon,

bydd swyddogion yn nodi'r defnydd gorau o'r cyllid i'w ddosbarthu'n deg.

Gofynnodd aelodau ynghylch y cyfeiriad tuag at waith cyflymdra ar briffyrdd yn yr adroddiad a gofynnodd am eglurder ynghylch y cyfrifoldebau. Nodwyd mai'r heddlu'n unig a all gorfodi'r terfyn cyflymder a rhoi tocynnau am oryrru. Gall swyddogion yng Nghastell-nedd Port Talbot ddefnyddio damweiniau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i roi mesurau lliniaru ar waith i reoli terfynau cyflymder.

Gofynnodd swyddogion a oes gan y cyngor yr adnoddau i ymchwilio ac ymateb i geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlenni priodol. Gofynnwyd hefyd a oedd Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol i aelodau yn ogystal â'r cyhoedd. Cadarnhaodd swyddogion fod gan aelodau'r hawl i ofyn am unrhyw wybodaeth ynghylch y cyngor a'i gweld pe byddant am wneud hynny. Nid gofyn am wybodaeth drwy Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fyddai'r arfer gorau er mwyn i aelod gasglu gwybodaeth. Mewn perthynas â'r cyhoedd yn derbyn gwybodaeth, nodwyd y dylai gwybodaeth gyffredinol fod ar gael ar y wefan er mwyn i'r cyhoedd ei chyrchu er mwyn atal cael ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth niferus.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet

<u>Chwarter 2 (1 Ebrill 2021 - 30 Medi 2021) Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Cabinet).</u>

Derbyniodd aelodau wybodaeth perfformiad chwarter 2 ar gyfer data Dangosyddion Perfformiad Allweddol a chanmoliaeth a chwynion o fewn cylch y Cabinet, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Amlygodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn deall nad yw rhai o'r dangosyddion perfformiad yn cyrraedd y targedau oherwydd pwysau'n dilyn effaith COVID-19. Nododd aelodau eu gwerthfawrogiad o'r gwaith y mae'r swyddogion yn parhau i'w wneud i gyrraedd eu targedau.

Nododd aelodau fod staff â gwybodaeth drylwyr a phrofiad o fewn yr Adran Gynllunio wedi gadael yr awdurdod. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg adnoddau o fewn yr adran. Gofynnodd yr aelodau pa fesurau lliniaru yr oedd swyddogion yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod swyddi swyddogion yn cael eu llenwi, gan sicrhau bod pobl â gwybodaeth a phrofiad yn y cyngor. Nododd swyddogion oherwydd y galw mawr ar

gyflwyniad y gwasanaeth, maent yn sicrhau pecyn recriwtio ar hyn o bryd.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ynghylch gweithredu Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Parhaodd aelodau i fynegi eu pryderon ynghylch Cydbwyllgorau Corfforedig. Nodwyd bod gohebiaeth wedi bod rhwng y Pwyllgor Craffu a'r gweinidog sy'n rhannu pryderon y pwyllgor.

Roedd aelodau'n falch o weld y gwneir gwaith i sefydlu fformat craffu. Fodd bynnag, gwnaethant rannu eu pryder ynghylch y cydbwyllgorau blaenorol lle ystyriwyd y Pwyllgor Craffu yn y camau olaf. Nodwyd bod angen ystyried craffu o'r dechrau er mwyn sicrhau bod llywodraethu da ar waith er mwyn dal y rheini i gyfrif.

Cafwyd trafodaethau ynghylch cyfrifoldebau swyddogaethau'r Cydbwyllgorau Corfforedig. Nodwyd yn yr adroddiad y byddai Sir Benfro'n bennaf yn gyfrifol am Lywodraethu ac Archwilio, a gofynnodd aelodau ynghylch y ffordd y sefydlwyd hyn. Nodwyd y byddai gan Sir Benfro'r rheolaeth yn bennaf o ran cyfrifoldeb swyddogion, ond byddai'r Pwyllgor Craffu Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod, gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**